



HEDDWCH

Rhifyn 72 > Haf 2019 > CND Cymru > Yr Ymgrych dros Ddiarfogi Niwclear



GWLEIDYDDIAETH GÊM ARCÊD?

*Nôl â ni at y ras arfau niwclear a'r
rhyfelgarwyr sy bob amser yn mynnu ailchwarae.*

Yn lle diplomyddiaeth ryngwladol, wele chwarae gemau, gwawdio, bwlio, cosbau ar fasnach, hyrddiadau polisi dirybudd. Wrth i Trump fygwth rhyfel ag Iran, mae'r Pentagon wrthi'n adolygu polisi'r UD, gan ystyried a ellid tybed ennill rhyfel niwclear. Nid gêm arcêd mo rhyfel niwclear, nid ffug-chwarae. Mae'n bygwth dyfodol ein byd, yr un go iawn.

Y PENTAGON YN TROI'R DROL

*'MAD 'oedd talfyriad priodol iawn 'Mutually Assured Destruction'. Y gred hon, na wnâi'r naill ochr na'r llall bwyso'r botwm oherwydd na allai'r naill na'r llall oroesi gwrthdaro niwclear, oedd sail y syniad o fraw-ataliaeth ar hyd y Rhyfel Oer. Mae **Brian Jones** yn disgrifio newid agwedd a ddylai'n dychryn ni i gyd.*

Mae'r Pentagon bellach yn credu y gallai defnyddio arfau niwclear "greu amodau ar gyfer canlyniadau pendant ac adfer sefydlogrwydd strategol", yn ôl athrawiaeth niwclear newydd a fabwysiadwyd gan gyd-benaethiaid staff yr UD ym mis Mehefin. Â yn ei flaen: "Yn benodol, bydd defnyddio arf niwclear yn newid cwmbras brwydr yn sylfaenol ac yn creu amodau sy'n effeithio ar y modd y gall arweinwyr ennill mewn gwrthdaro."

Mae hyn yn newid agwedd filwrol yr UD tuag at y syniad o ymladd ac ennill rhyfel niwclear - meddylfryd peryglus iawn.

Roedd yr athrawiaeth niwclear newydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Pentagon am wythnos cyn cyfyngu ar fynediad iddi.

Mae'n dilyn penderfyniad llywodraeth Trump i gefnu ar ddau gytundeb niwclear: cyd-raglen weithredu gynhwysfawr gydag Iran yn 2015, a chytundeb Lluoedd Niwclear Canolradd (INF) 1987 gyda Rwsia. Mae'r llywodraeth hefyd yn amheus am drydydd un: y cytundeb 'New Start' sy'n cyfyngu ar arfau niwclear strategol a

systemau saethu yr Unol Daleithau a Rwsia, sydd i fod i ddod i ben yn 2021.

GWAHARDDIAD BYD-EANG: Y DIWEDDARAF

Wrth i ni fynd i'r wasg, mae 71 o wledydd wedi llofnodi Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear, a 24 o'r rheini hefyd wedi ei gadarnhau. Daw'r Cytundeb i rym unwaith y bydd 50 o wledydd wedi ei gadarnhau; y gwledydd mwyaf tebygol o wneud yn y misoedd nesaf yw Bolivia, Chad, Comoros, Ecuador, Ghana, Guatemala ac Iwerddon. Mae ICAN, yr Ymgyrch Ryngwladol yn erbyn arfau Niwclear, yn parhau i lobio llywodraethau i lofnodi a chadarnhau'r cytundeb, gan ganolbwyntio'i hymdrechion ar Affrica a Chanol a De America.

Yma yng Nghymru, rydym yn parhau i geisio darbwyllo mwy o ASEau, ASau ac ACau o Gymru i lofnodi Addewid Seneddwyr ICAN i gefnogi'r cytundeb: hyd yn hyn mae 1 ASE, 5 AS ac 8 AC wedi arwyddo. Ac rydym yn gobeithio y bydd

dinas yng Nghymru yn llofnodi Apêl Dinasoedd ICAN yn fuan, ochr yn ochr â Pharis, Washington DC, a rhestr hir o ddinasoedd eraill sy'n galw am fabwysiadu'r Cytundeb yn gyffredinol. Am wybodaeth ynglyn â'r cytundeb, gweler www.cndcymru.org neu cysyllter â Brian Jones.

© Heath



YMDDIHATRU DROS HEDDWCH

Cadeirydd CND Cymru Jill Evans ASE yn galw am newid cyfeiriad...

Heddiw, yn fwy nac erioed, mae arnom angen llywodraethau â'r polisïau iawn. Mae gyda ni argyfwng hinsawdd. Mae angen adnoddau enfawr arnom – rhai heb eu darganfod eto – i weithredu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Ac eto, o fewn y deng mlynedd nesaf, bydd y gwladwriaethau sy'n berchen ar arfau niwclear yn gwario tua triliwn o ddoleri ar gynnal a moderneiddio, yn ogystal â lleoli, eu harfau niwclear. Dychmygwch beth allai'r swm yma o arian ei wneud pe bai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer heddwch a chynaliadwyedd.

Deffra, mae'n fore, ledled y byd

Dyma pam mae'r ymgyrch i dorri gwariant ar arfau niwclear a'i ail-fuddsoddi mewn heddwch, gwarchod yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy yn tyfu'n gyflym. Ymgyrch fyd-eang a chanddi ffocws lleol yw'r ymgyrch i "Symud yr Arian Arfau Niwclear" ("Move the Nuclear Weapons Money"). Ym mis Mehefin, stopiodd dinas Charlottesville yn nhalaith Virginia, yr UDA, bob buddsoddiad o'i chyllideb weithredol mewn cwmnïau arfau a thanwydd ffosil. Daeth y penderfyniad yn dilyn misoedd o lobïo gan grwpiau lleol.

Ymddihatru o'r niwclear

Gwnaed llawer o waith ar "effaith buddsoddi", gan fuddsoddi mewn mentrau economaidd sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy er mwyn i fuddsoddwyr gael adenillion da. Mae hyn yn bwysig er mwyn darbwyllo buddsoddwyr na fyddan nhw'n colli allan yn ariannol. Mae dros 300 o fanciau o amgylch y byd yn buddsoddi dros \$500 biliwn mewn cwmnïau arfau niwclear. Rhaid i ni arddangos bod gan heddwch cadarnhaol werth

economaidd gwirioneddol. Fe wnaeth llywodraeth Norwy gydnabod hyn yn 2006 pan dynnodd ei chronfa bensiwn allan o gwmnïau arfau niwclear. Dyma'r gronfa wladol fwyaf yn y byd. Fodd bynnag, dim ond Seland Newydd, y Swistir a Liechtenstein wnaeth ddilyn. Yn 2015 a 2016 dechreuodd Norwy gynnwys meini prawf newid hinsawdd a datblygu cynaliadwy ac mae Iwerddon wedi tynnu allan o lo thermol. Rhaid i fwy o wledydd ymateb i hyn a pheidio â chaniatáu i elw anferth gael ei wneud o ddinistr y blaned. Felly sut allwn ni newid pethau?



Gallwn gyfri'r arian!

Yn ystod Wythnos Diarfogi'r Cenhedloedd Unedig, 24 - 30 Hydref, dros saith diwrnod a noson, bydd ymgyrch Symud yr Arian Arfau Niwclear yn cyfrif \$1 triliwn mewn miliwn o bapurau miliwn-doler ffug. Bydd hyn yn digwydd yn Efrog Newydd y tu allan i'r Cenhedloedd

Unedig lle bydd llywodraethau'n cyfarfod. Caiff y digwyddiad yn Efrog Newydd ei ffrydio'n fyw ar y we. Ond maen nhw eisiau i ni drefnu cyfrif ategol hefyd mewn ysgolion, colegau, seneddau neu unrhyw le perthnasol. Mae artistiaid yn dylunio'r arian papur a fydd yn cario neges gref iawn. Gallwn ninnau fod â'n papurau Cymreig ein hunain, wedi eu dylunio gan Youth Strike 4 Climate.

Dros Gymru a'r byd

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd. Mae gyda ni ymrwymiad i'r blaned a fynegwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn 1982, fe wnaeth Cymru ddatgan ei bod hi'n wlad ddi-niwclear. Credaf fod hyn yn gosod dyletswydd arnom ni fel cenedl i gymryd camau er mwyn gwella bywydau pobl a'r amgylchedd, yng Nghymru ac ar draws y byd.

GWIR BRIS WRANIWM

Mae Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (2017), a negydwyd gan yr Ymgyrch Ryngwladol yn erbyn Arfau Niwclear (ICAN), yn amlygu'r ffyrdd y mae cloddio, prosesu a storio deunyddiau ymbelydrol yn aml yn pwysu'n drymaff ar bobl frodorol sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell neu ar yr ymylon.

Mae profion arfau niwclear yn y Môr Tawel a defnyddio arfau DU (wraniwm hesb) ar feysydd cad Irac hefyd wedi gadael etifeddiaeth farwol i boblogaethau lleol. Ymddengys bod cromen goncridd enfawr yn Ynysoedd Marshall eisoes yn gollwng plwtoniwm-239.

Pwy yw'r prif gyhyrchwyr?

Caiff rhai o'r anghyfiawnderau gwaethaf eu hachosi wrth gloddio a melino wraniwm. Mae gan Awstralia (ffigrau 2017) ryw 30 y cant o adnoddau wraniwm hysbys y byd, gyda Kazakhstan, Canada, Rwsia, Namibia, De Affrica, China, Niger a Brasil â 5-14 y cant yr un. Mae dros hanner y cwmnïau mwngloddio wraniwm yn perthyn i'r wladwriaeth, ac mae'r 10 cwmni mwyaf yn rheoli 85 y cant o'r farchnad fyd-eang.

Mwngloddio, iechyd a diogelwch

Yn ddiweddar aeth trwytholchi mwyn wraniwm ar y safle ag asid sylffwrig neu garbonadau yn fwy cyffredin na chloddio brig a thanddaearol. Mae ymbelydredd yn berygl i'r gweithwyr. Gall gweddillion fod yn gyfrifol am nwy ymbelydrol fel radon, llwch a gludir ar y gwynt, a llygru cyflenwadau dŵr. Mae'r canlyniadau trasig yn cynnwys canser a namau geni ymhlith pobl leol. Bu mwy na 200 o ddamweiniau ym Mhwl Ranger, ym Mharc



© Jessie Boylan

Wncwl Kevin Buzzacott, Henadur Arabunna ac ymgyrchydd o Dde Awstralia

Cenedlaethol Kakadu Awstralia, yn cynnwys gollwng 1,000,000 litr o hylif gwenwynig yn 2013. Yn 2014 bu damwain drychinebus hefyd ym Mhwl Rössing Uranium yn Namibia pan ollyngodd hylif o danc trwytho.

Hawliau brodorol

Mae gweithrediadau mwngloddio rhyngwladol yn torri Erthygl 29 Datganiad Hawliau Pobloedd Brodorol y CU (2007) yn rheolaidd. Gall y tramgwyddo gynnwys methu parchu hawliau tir, diraddio'r amgylchedd, ymelwa'n gorfforaethol ar adnoddau heb ganiatâd priodol, gwahaniaethu ar sail hil, peryglu iechyd y cyhoedd a'u hawliau atgenedlu. Yn aml nid oes gan bobl frodorol bŵer na dylanwad. Maent yn aml mewn tlodi mawr ac yn gwbl ddibynol ar y swyddi mae'r diwydiant yn eu darparu. Ond nid am unrhyw bris.

"Mae cloddio am wraniwm wedi gwenwyno ffynhonnau a dyfroedd fy nghartref yn Grand Canyon, ac mae'n parhau i wneud."
Y Gynghorwraig Havasupai Carletta Tilousi

Pŵer Pobl

Mae gwrthwynebiad



◀ cymunedau brodorol yn Awstralia, fel y Mirarr a'r Tjiwari, wedi bod yn gadarn. Yn India, lle mae angen wraniwm ar gyfer rhaglen arfau niwclear y wlad, mae pobl Khasi rhanbarth Meghalaya wedi herio cynlluniau'r llywodraeth.

Yng Nghanada, mae mwynau

Saskatchewan gyda'r mwyaf gwerthfawr y byd, ond i lawer o'r Pobloedd Cyntaf, mae anrheithio'u tir a'u hamgylchedd yn fargen annerbyniol.

Yn 2006 yn UDA, trefnodd cenedl y Navajo, y mae llawer o'i chyn-lowyr wedi dioddef o ganser, Uwchgynhadledd Wraniwm Frodorol, yn galw am waharddiad byd-eang. Heddiw mae pobl frodorol fel yr Havasupai benben â Donald Trump a'r lobi fwyngloddio, yn herio'u agenda. (Nid yw Trump a'i gwmni yn anorchfygol, serch hynny. Ym Mehefin 2019, dyfarnodd Goruchaf Lys yr UD o blaid cynnal gwaharddiad ar gloddio cyflenwad wraniwm mwyaf y wlad, yn Coles Hill, Virginia). Ym Mehefin 2019 hefyd, cyhoeddodd pobl Anishinabek Canada eu gwrthwynebiad i Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMRs) a'r diwydiant niwclear.

Ecsploetiaeth

Gall dau ffactor cyffredin nodweddu protestiadau brodorol. Y cyntaf yw'r dicter a deimlir tuag at yr ecsploetwyr, y gwladychwyr, yr echdynwyr, pŵer y wladwriaeth ganolog, yr imperialwyr a'r cyfalafwyr. Mae'r ail hyd yn oed yn fwy sylfaenol. Mae gan lawer o bobl frodorol gysyniad hollol wahanol

"Mae'n gyfrifoldeb arnom ni, fel Anishinabek, i warchod ein tiroedd a'n dyfroedd."

Glen Hare, Pennaeth Prif Gyngor Cenedl yr Anishinabek, Canada

o'r byd naturiol, y byd ysbrydol, eiddo a gwarcheidiaeth y tir, y gorrffennol, y presennol a'r dyfodol. I wyddonwyr a gwyr busnes, gall hyn ymddangos fel dim byd mwy na chredoau gwerin neu chwedlau rhamantus.

Ond dylent ailystyried. Mae

dealltwriaeth frodorol o'r amgylchedd yn aml yn soffistigedig ac wedi cael ei hogi a'i phrofi dros filoedd o flynyddoedd. Nid Pobl Gyntaf Canada neu frodorion Awstralia a ddrylliodd y blaned.

Gwersi i Gymru

Gallwn ni yng Nghymru ddysgu gan brotestwyr brodorol y byd, gan eu dulliau a'u gweledigaeth amgen o'r blaned a'i hadnoddau. Mae gennym oll lawer yn gyffredin. A gadewch i ni ofyn i'n hundebau llafur peirianeg niwclear i fod yn driw i'w traddodiadau o undod a rhyngwladoldeb pan ddaw hi i'r problemau iechyd a'r amodau gwaith a orfodir ar lowyr wraniwm brodorol a'u teuluoedd. Ni ddylem fod yn creu mwy o arfau niwclear a gwastraff ymbelydrol ar gefn y tlawd a'r rhai a ddadfeddiannwyd.

Philip Steele



Bu'n frwydr chwerw rhwng hawliau tir brodorol a chwmnïau cloddio yn Black Hills UDA ers y 1870au.

ALLFORION ARFAU YN ANGHYFREITHLON

Trwyddedau Arfau i Sawdi Arabia yn anghyfreithlon medd y Llys Apêl.

Be sydd wnelo hyn â Chymru? Robot Idris yn rhoi'r darlun cyfan.

Croesawn y newydd fod y Llys Apêl wedi barnu fod trwyddedu allforio arfau oddi yma i Sawdi Arabia yn anghyfreithlon.

Dywedodd y barnwyr ei bod yn “afresymegol ac felly yn anghyfreithlon” fod yr Ysgrifennydd dros Fasnach Ryngwladol wedi awdurdodi trwyddedau am allforion arfau heb wneud asesiad os oedd Sawdi Arabia wedi torri'r Gyfraith Ddyngarol Ryngwladol neu beidio.

Bu llawer o adroddiadau yn dweud fod torcyfraith o'r fath wedi digwydd yn ystod cyrchoedd bomio Lluedd Arfog Sawdi Arabia ar Yemen. Dyna pam y daeth yr Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) â'r achos o flaen y llys.

Be ydy'r cefndir?

Does dim syndod yn y byd fod rhyfelgwn San Steffan am geisio gwyrddroi'r dyfarniad drwy apelio yn ei erbyn – anrheg fach gan May i'w holynydd. Ond tamaid o'r un brethyn ydyn nhw hefyd. Boris Johnson? Pan oedd o'n Weinidog Tramor yn 2016 cefnogodd werthu arfau yn nannedd tystiolaeth yn dangos fod targedau sifil yn cael eu bomio. Jeremy Hunt? Ceisiodd wyrddroi penderfyniad yr Almaen i beidio a gwerthu arfau i Sawdi.

Ond mae sinigiaeth llwyr Llywodraethau'r Deyrnas Gyfunol – Tori a Llafur - drwy werthu arfau i Sawdi yn amlwg ers degawdau. Yn 1985

y dechreuodd Thatcher a phrif gwmni arfau Prydain, BAE Systems, ar gytundebau a elwir 'Al Yamamah', sydd wedi roi elw o £43 biliwn fan leiaf i'r cwmni. Daeth yn amlwg fod llwgrwobrwyo ar raddfa anhygoel wedi digwydd, ond yn dilyn pwysau gan Sawdi, ataliwyd ymchwiliad y Serious



© Ahmed Jahaf

Fraud Office gan Blair. Amddiffyn buddiannau y fasnach arfau a'r peiriant milwrol ydy blaenoriaeth ein llywodraeth yn Llundain, nid arbed bywydau. Mae Prydain yn darparu mwy o arfau nac unrhyw wlad arall i Sawdi heblaw am UDA a hefyd yn hyfforddi lluedd arfog y wlad honno ac yn cynnal a chadw eu hawyrennau.

Rhyfel Yemen yw'r dolur sy'n dinistrio'r wlad honno, a lladd ei phobl yn ddidrugaredd heb falio os ydy'r lladdedigion yn filwyr ai peidio. Mae ▶

erchylltra mor gyffredin fel ei fod yn ffordd o fyw i ddwy ochr y gyflafan. Ac eto fyth, mae olion bysedd gwaedlyd y Brydain ôl-imperialaidd ar gyrff y diniwed. Y diniwed a leddir pan ymosodir ar ysgolion, ysbytai a phriodasau.

Be sy gan hyn i wneud efo Cymru?

Defnyddir Cymru at ddibenion rhyfelgar, a mae yna gysylltiad efo'r hyn sy'n digwydd yn Yemen. Taniwyd y taflegrau "Storm Shadow" a "Paveway IV" at Yemen. Profwyd rhain yn Aberporth gyda'r awyren Typhoon yn 2010 a 2015. Mae Maes Awyr Llanbedr ger Harlech i'w ddatblygu er mwyn profi adar angau ("drones"). Cefnogir y datblygiad gan £500,000 o arian trethdalwyr Gwynedd.

Mae Llanbedr yn rhan o "Barth Menter Eryri" ynghyd â Thrawsfynydd, lle y cefnogir datblygu Adweithydd Niwclear Bychan (SMR) sydd, fel y dengys ymchwil Prifysgol Sussex, yn bennaf er mwyn cadw sgiliau niwclear ym Mhrydain ar gyfer y llongau tanddwr Trident.

Yr ardal oddi ar arfordir Gorllewin Cymru yw'r cyntaf i gael ei chlustnodi ar gyfer paratoi at ryfel a lladd o bell. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon fod hyn yn digwydd. Fu yna fawr o drafod cyhoeddus am hyn – sy'n nodweddiadol am y ffordd y militarieddiwyd Cymru dros y ganrif ddiwethaf.

Hyfforddwyd peilotiaid o Sawdi Arabia yn RAF Fali ar Ynys Môn, lle y cynhaliodd nifer o fudiadau dyngarol wynlos o brotest llynedd. Mae Awyrlu'r Fali wedi derbyn rhyddfraint Ynys Mon gan y Cyngor Sir.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r diwydiant arfau a rhyfel. Dyma i chi rai o'r

cwmnïau arfau a milwrol enfawr sy'n cael croeso gan Lywodraeth Cymru: BAE Systems; Raytheon; QinetiQ.

Fedrwn ni ddim bod yn fodlon efo'r ffaith fod cymaint o'n gwlad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer paratoi at ryfel, fod ein pobl dlotaf yn cael eu targedu ar gyfer eu recriwtio i'r fyddin, a bod cymaint o'n swyddi yn dibynnu ar y peiriant dieflig o ddysgu sut i ladd pobl a hynny yn y ffyrdd mwyaf didostur.

Mae'r ddibyniaeth ar y diwydiant arfau a rhyfel yma yn anfoesol. Polisi San Steffan yw gwario ar arfau a militariaeth. Polisi San Steffan yw llymder sy'n gwasgu ein cymunedau a'n Cyngorau Sir, ac yn ein gwneud yn ysglyfaeth i unrhyw addewid am 'swyddi'.

Mae'n rhaid gofyn pam mae cymaint o'n gwlad o dan bawen y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dylai Epynt fod yr un mor bwysig i ni ag ydy Tryweryn. Mae'n hwyr glas i Gymru ddeffro i'r ffaith fod gweithgaredd milwrol yma yn arwain at ladd ar raddfa eang mewn rhyfeloedd tramor ac yn aml iawn y diniwed a leddir. Fel y dywed y gohebydd dyngarol Hisham al-Omeisy o'r Yemen: 'Yr arch leiaf yw'r arch drymaf'.

heddweithredu:

sgrifennwch at eich AS i brotestio yn erbyn gwerthu arfau anghyfreithlon ac anfoesol i Saudi.



RAF Fali, Ynys Môn, canolfan hyfforddi i beilotiaid o Sawdi Arabia

CYN-FILWYR DROS HEDDWCH: 'byth eto'...

*Nid rhyfel mo'r ateb i'r problemau a wynebwn yn yr 21ain ganrif medd **Steve Heaney**, aelod o CND Cymru sy'n weithgar gyda Grŵp Heddwch Sir Conwy – a Chyn-filwyr dros Heddwch.*

Gweithredu yng Nghymru

Sefydlwyd Cyn-filwyr dros Heddwch (VFP) yn Unol Daleithau America ym 1985, gyda mwy na 100 o ganghennau yn yr UD a nifer cynyddol o ganghennau rhyngwladol. Sefydlwyd Cyn-filwyr dros Heddwch y DU yn Llundain yn 2011 gan Ben Griffin. Mae gan Gymru 10 aelod hyd yma, wedi'u rhannu rhwng y gogledd a'r de.

Pwy ydyn ni?

Cymdeithas wirfoddol a gwleidyddol annibynnol yw VFP ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog, dynion a menywod sydd wedi gwasanaethu mewn gwrthdaro o'r Ail Ryfel Byd i Afghanistan. Dydyn ni ddim yn fudiad o heddychwyr: rydym yn derbyn hawl gynhenid i hunan-amddiffyn mewn ymateb i ymosodiad arfog. Rydym yn gweithio i ddylanwadu ar bolisi tramor ac amddiffyn y DU, a thuag at y nod o heddwch bydeang.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Mae tair prif nod gennym: a) gweithio tuag at gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gost rhyfel; b) atal ein llywodraeth rhag ymyrryd, yn agored ac yn gudd, ym materion mewmol gwledydd eraill; c) gweithio tuag at ddiwedd ar y ras arfau a lleihau niferoedd

arfau niwclear ac, yn pen draw, eu dileu.

Mae ein gweithgareddau'n canolbwyntio ar ddau ddigwyddiad blynyddol, sef Dydd y Cofio a Dydd y Lluedd Arfog (DyLIA). Mae VFP yn trefnu ei orymdaith ei hun wedi'r Cofio swyddogol, gyda'n haelodau'n gorymdeithio tu ôl i faner "Byth Eto".

Rydym yn pryderu am y militareiddio cynyddol ar gymdeithas Prydain, ac mae DyLIA yn un amlygiad o hynny. Yn 2018 cynhaliwyd DyLIA yn Llandudno. Ynghyd â gweithredwyr heddwch eraill roedd aelodau VFP-Cymru yn bresennol ar y prom a'r prif faes. Buom yn dosbarthu taflenni a siarad â phobl ifanc a oedd wedi ymweld â nifer o stondinau milwrol. Buom hefyd yn herio'r bobl ar y stondinau am bwrpas ac effeithiau'r arfau roedden nhw'n eu harddangos ac yn gadael i blant eu trin.

Y ffilm War School

Mae Cyn-filwyr dros Heddwch hefyd wedi bod yn dangos y ffilm War School (2018). Bu nifer o ddangosiadau ledled Cymru gydag aelodau o VFP-Cymru yn mynychu i gymryd rhan yn y drafodaeth. Os hoffai unrhyw grwpiau neu unigolion drefnu eu dangosiad eu hunain



© Steve Heaney

Cyn-filwyr dros Heddwch yn ymgychu ar Ddiwrnod Lluedd Arfog yn Llandudno

(hyd, 85 munud, Saesneg), ewch i <https://www.war.school> lle gellir bwcio'r ffilm. Bydd aelodau lleol VFP yn falch i ddod i gymryd rhan mewn trafodaeth o'r materion a godir gan y ffilm; bydd y cyfarwyddwr, Mic Dixon, yn mynychu dangosiadau fel arfer hefyd.

heddwethredu:

- Mae Cyn-filwyr dros Heddwch yn annog cyn-filwyr sy'n rhannu eu gweledigaeth i ymuno â nhw: gwybodaeth yn www.VFPUK.org
- Maent am herio presenoldeb milwrol mewn gofodau cyhoeddus, ac os gwyr unrhyw ddarlennydd am ymgirchoedd recriwtio milwrol yn eu hardal, cysyllt â Steve Heany yn wales@vfpuk.org
- Maen nhw hefyd yn rhedeg ymgyrch Gwlad Niwtral, manylion yn <https://neutralcountry.uk>

DDIM YN MYND DAN DDAEAR!

Ymatebodd 80 o gynghorau ledled Cymru i lythyr CND Cymru a phleidleisio i beidio â chroesawu "CGD", Cyfleuster Gwaredu Daearegol, sef storfa wastraff niwclear lefel-uchel danddaearol.

Ym mis Gorffennaf 2019, nodwyd bod creu mwy nag un CGD yn y DU o dan ystyriaeth, ac y byddai rhyw 10 y cant o gyfanswm y deunydd i'w waredu (yn ôl cyfaint) yn deillio o adeiladu gorsafoedd niwclear newydd.

Ar ôl chwe chyfarfod ymgynghori 3-awr o hyd yn Lloegr, gyda 131 o gyfranogwyr, cafodd y ddau ymgynghoriad Cymreig ar CGD, i'w cynnal yn wreiddiol yn Abertawe a Llandudno, eu troi'n

sesiynau ar-lein ar fyr rybudd. Mewn-gofnododd 69 o bobl, caniatwyd cyfanswm o saith cwestiwn a gyflwynwyd o flaen llaw (heb ddim gyfle i holi ymhellach ar ôl cael atebion), a pharodd y ddwy sesiwn lai nag awr a hanner.

Yng nghyflwyniad CND Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gwnaethom ddadlau bod hyn yn dangos dyfnder y gwrthwynebiad i gladdu gwastraff niwclear mewn unrhyw ran o Gymru - neu unrhyw le arall o ran hynny!

Dylid storio gwastraff niwclear ar y safle, lle gellir ei fonitro'n ddiogel ac yn hawdd – ac ni ddylem gynhyrchu dim mwy ohono!

Brian Jones

YR ARGYFWNG HINSAWDD AC ARFAU NIWCLEAR

Er bod naw gwladwriaeth arfog niwclear ar y blaned (UDA, Rwsia, Prydain, Ffrainc, China, India, Pacistan, Israel a Gogledd Corea), does yr un ohonyn nhw'n esiampl o ymddygiad rhesymegol.

Gallai fod yn fuddiol cofio:

- Bod llawer o weithredwyr gwrth-niwclear ledled Cymru yn cefnogi Gwrthryfel Difodiant a'i nodau di-drais.
- Byddai rhyfel niwclear a'r 'gaeaf niwclear' a'i dilynai yn gwneud y ddadl am argyfwng yr hinsawdd yn amherthnasol.
- Byddai trychineb hinsawdd yn gwneud rhyfel a damweiniau niwclear yn anochel.
- Mae cynhyrchu a lleoli arfau niwclear yn ychwanegu at allyriadau carbon.
- Mae ôl-troed carbon cydnabyddedig rhyfel confensiynol a niwclear yn gwneud y materion hyn yn eitem anochel ar agenda Trychineb Hinsawdd.

Yn lle damcaniaethu dros hyd a lled y newid yn yr hinsawdd yn sgil rhyfel niwclear, pam ddim gwahardd arfau niwclear yn llwyr?

Os ydych chi'n un o'n hannwyl gymrodry Gwrthryfel Difodiant, cofiwch hyn oll a'i godi mewn trafodaethau ac wrth ymgychu. Rydym ar yr un llwybr; yr un bobl ydyn ni, fwy na thebyg!

Jill Gough



© Nick Jewitt

Gyda'n gilydd nawr ... Matthew Misiak o Wrthryfel Difodiant Gogledd Cymru yn annerch rali ar y cyd, Bangor, Mehefin 2019

O FÔN I FYNWY...AROUND WALES...O FÔN I FYNWY

Y Mussolini newydd?

Ar 3 Mehefin 2019, noswyl ymweliad gwladol Donald Trump, cynhaliodd Grŵp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn rali ger Tŵr Cloc y ddinas. Croesawodd Côr Stryd Bangor dorf fawr, ac roedd y siaradwyr yn cynnwys Linda Rogers (CND Cymru), Siân Gwenllïan AC (Plaid Cymru), Matthew Misiak (Gwrthryfel Difodiant Gogledd Cymru) a Ben Gregory (Cymru-Nicaragua).

Roedd y gynulleidfa'n amrywio o ran oedran a phrofiad o weithredu: mae arlywyddiaeth bisâr Trump wedi ymosod yn filain ar gymaint o wahanol gymunedau ledled y byd. Clywsom am ei ryfelgarwch niwclear, ei ddiffyg parch at gytundebau a chyfraith ryngwladol, ei fod yn gwadu'r argyfwng hinsawdd, ei driniaeth waradwyddus o ymfudwyr, ei ymdrechion di-hid



Nick Jewitt

Cymru'n gwrthod Trump, Mehefin 2019

i ddadsefydlogi America Ladinaidd a'r Dwyrain Canol, ei ddirmyg tuag at y Palestiniaid, ei anwiredd noeth, a'i ddiffyg parch at fenywod.

Roedd sylw yn y cyfryngau yng Nghymru yn cynnwys cyfweiliadau gan Ben Gregory a Selwyn Jones ar S4C, a Linda Rogers ar Radio Wales. Fe'i gwnaed yn glir iawn bod angen i CND Cymru a sbectwm cyfan o grwpiau gweithredu ymuno a chydweithio mewn gwrthwynebiad.

Wyth Burghfield nôl yn y llys

Mae'r giamocs cyfreithiol yn dilyn y gwarchae ar Sefydliad Arfau Atomaidd Burghfield fis Hydref 2018 wedi ymestyn dros gyfnod maith. Ni chynhaliwyd y gwrandawiadau terfynol tan 8-9 Gorffennaf 2019. O'r wyth ger bron y llys, roedd pedwar yn aelodau o CND Cymru. Cyhuddwyd Brian Jones, Jan Jones a Marie Walsh o rwystro'r briffordd a chafwyd nad oedd ganddynt achos i'w ateb (fel un diffynnydd arall, Jed Picksley). Roedd Awel Irene yn un o'r pedwar a gyhuddwyd o dresmasu gwaeth. Rhoddwyd rhyddhad amodol iddi hi, a'r tri arall, am ddwy flynedd ond gorchymynnwyd iddynt dalu costau llys o £795 yr un. Gellir dod o hyd i apêl am gyfraniadau tuag at gostau'r pedwar diffynnydd yn <https://chuffed.org/project/nuclear-weapons-protestors>

Canu am Noddfa ym Mangor

Os am atal symudiad ffoaduriaid diobaith ym mhedwar ban, dywedwch wrth eich llywodraeth i beidio â gollwng bomiau ar sifiliaid, peidio

â chefnogi'r fasnach arfau, peidio â dadsefydlogi rhanbarthau cyfain. Roedd Pontio ym Mangor yn orlawn ar 23 Mehefin 2019 ar gyfer gwyl gorawl fawreddog Canu am Noddfa a drefnwyd gan Hilary Wilson, gyda Chorau Cymuned a Stryd Bangor, Côr Rygbi Bangor, Côr Dros y Bont, Boncathod, Threnody ac AMaSing. Codwyd £2,160 ar gyfer elusennau ffoaduriaid lleol Pobl i Bobl a Croeso Menai.

Yr NFLA yn Abertawe

Mae seminar yr hydref o Fforwm Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA) Cymru yn croesawu unigolion a grwpiau, cyrff anllywodraethol, cynghorwyr a swyddogion cyngor. Fe'i cynhelir eleni yn Abertawe yn y Ganolfan Ddinesig, o 10.30am i 1.30pm ddydd Gwener 6 Medi 2019. Thema'r diwrnod fydd 'lliniaru'r argyfwng hinsawdd, trawsnewid cyfiawn, ac ymdrin yn gyfrifol â'r etifeddiaeth niwclear'. Caiff siaradwyr eu cadarnhau cyn bo hir. I gofrestru o flaen llaw, e-bostiwch Sean Morris, Ysgrifennydd NFLA: S.morris4@manchester.gov.uk

O FÔN I FYNWY...AROUND WALES...O FÔN I FYNWY

CCC CND Cymru,
Y Drenwydd 2019

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar y 1af Mehefin, ailetholwyd Jill Evans i'r Gadair, a chafodd yr Is-gadeiryddion oll eu haillethol. Etholwyd Awel Irene a Bethan Siân i'r pwyllgor gwaith.

Cyflwynodd Michael Freeman Adroddiad y Trysorydd a chadarnhau manylion yr aelodaeth gyfredol. Mae gan CND Cymru 459 o aelodau tanysgrifenedig (gan ganiatáu ar gyfer 2 am bob aelwyd a grŵp). Mae 261 o aelodau CND y DU sy'n byw yng Nghymru hefyd yn derbyn Heddwch, a anfonir i 726 o gyfeiriadau, yn cynnwys pob AS, AC, ac ASE ac arweinwyr Cynghorau. Anfonir negeseuon ebost at ryw 485 o aelodau.

• Os nad ydych yn derbyn ebyst ond am wneud, da chi, ychwanegwch eich cyfeiriad at y rhestr ebyst, yn <https://www.cndcymru.org/take-part/join-email-list>
Dim ond rhyw 6 neges y flwyddyn a anfonir gennym, a mater hawdd yw tynnu eich cyfeiriad oddi ar y rhestr.

I ddilyn busnes y CCB, rhoddodd Bethan Siân gyflwyniad diddorol a difyr iawn am weithgareddau'r mudiad heddwch ar safle cyn-orsaf wrando llongau tanfor Llynges yr UD ym Mreudeth. Trwy gofnodi straeon rhai o'r unigolion a gymerodd ran, mae wedi dal peth o flas y protestiadau a fyddai wedi mynd yn anghof fel arall.

CYLLID

Mae sefyllfa ariannol CND Cymru yn sefydlog ers 5 mlynedd bellach. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfartaledd fel a ganlyn:

INCWM

Taliadau Aelodaeth a chyfraniadau	£ 7,500
Cyfraniad gan CND y DU	£15,000
Elw ar werthiant	£ 400
Cyfanswm	£22,900

GWARIANT

Golygu Heddwch (Philip Steele)	£ 3,000
Post a phacio Heddwch	£ 6,000
Ymgrychu (Brian Jones)	£ 6,000
Treuliau	£ 1,000
Cyfryngau cymd. (Jill Gough)	£ 5,000
Gwefan	£ 100
Stondin Eisteddfod	£ 880
Treuliau eraill	£ 500
Cyfanswm	£22,480

**DIGWYDDIAD
DYDD HIROSHIMA**

**yng Nghanolfan Pictwn,
Hwlfordd, SA61 1UG
6\8\19 6 pm tan iddi nosi**

***Am ddim, gyda bwyd poeth,
stondinau, cerddoriaeth fyw***

**Seremoni badau
cannwyll gyda'r nos**

Candle boat recovery by **PADDLEWEST**



‘Jonny Brush’ 1947-2019

Trist oedd clywed am farwolaeth Jon Clarke, Bethesda. Yn enedigol o Iwerddon, roedd yn gyfarwydd i lawer fel Jonny Brush. Roedd yn llythrennwr, yn arlunydd murlun ac yn arlunydd golygfaol i Theatr Gwynedd ac S4C. Roedd yn enwog fel dylunydd baneri ymgyrchu ysbennnydd a addurnodd lawer gorymdaith, cyfarfod a phrotest dros y blynyddoedd, a mynd yn un o nodweddion gwyliau Glastonbury. Yn rebel anarchaidd, llawn



Llun Martin Morley o Jonny Brush gyda baner Dyffryn Ogwen yn 1982

hiwmor tan y diwedd, bu Jonny'n chwilio'n ddyfal am heddwch a byd gwell. Ein cydymdeimlad i Julie a Peri, teulu a ffrindiau. Gorffwysed mewn hedd.

TEILS HIROSHIMA

Mae'n syndod beth ych chi'n darganfod yn y selar wrth symud tŷ. Mewn pedwar bocs llychlyd a thrwm roedd teils raku Hiroshima Meri Wells, y crochenydd o Aberhosan ger Machynlleth, yno ers rhyw 30 mlynedd.

Roedd y 38 o'r 40 teilen yn dal yn gyfan a'r syndod mwyaf i mi a Meri oedd bod y lliwiau yn dal yn gryf. Mae'r cyfan yn un jig-so sy'n creu panel 8 troedfedd wrth 5. Fe welwch yn y llun gorff gwraig wedi ei anweddu yn dilyn ffrwydrad bom atomic fel yn Hiroshima yn 1945. Wrth fynd â nhw nôl at Meri i'w rhoi at ei gilydd, y cof chwerw-felys ganddi hi oedd mai ei ffrind agos Meinir Wyn, Cwm Llinau, oedd model y corff wrth iddi ei gynllunio. Roedd Meinir yn ffrind ac yn ymgyrchydd diflino dros

achos CND Cymru a Heddwch yn ystod y cyfnod, ac fe fu farw'n llawer rhy ifanc.

Pwrpas dod â hwn i'ch sylw ydy i ni lenwi mewn y manylion sydd

wedi mynd yn angof ganddon ni, chwilio lluniau o'r darn fel ag yr oedd a hefyd holi am syniadau ar beth i'w wneud â'r darn celf pwysig yma nawr. Mae'n rhan o hanes dwys a dyfal CND Cymru dros y blynyddoedd. Y cof sydd gan Meri oedd iddo gael ei arddangos tu allan i babel CND Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog 1985. Fe fyddai hi wedi bod yn ddeugain mlynedd ers Hiroshima yr Awst hynny. Pwy sy'n cofio? Gadewch i ni wybod



Teils ceramig i goffáu Hiroshima, Meri Wells

eich atgofion chi os gwelwch yn dda. Yr hyn hoffwn i weld yn digwydd ydy ein bod yn chwilio safle priodol yng Nghymru i osod y darn yma, naill ai tu mewn neu du allan. Rhodd fydd hwn gan Meri Wells a gwaith cymharol hawdd fyddai ei osod o fewn ffrâm bwrrpasol. Gellid ei osod ar i fyny, ar ongl neu yn llorweddol. Danfonwch eich atgofion a'ch syniadau am leoliad addas iddo nawr os gwelwch yn dda, at medijames22@gmail.com

Medi James

CHERNOBYL. Mini-gyfras deledu, 5 pennod. Cynhyrchiad HBO-Sky UK. **Cyfarwyddwyd gan Johan Renck.** Iaith Saesneg.

Llongyfarchiadau i wneuthurwyr Chernobyl, am greu drama nad yw'n sentimentaleiddio nac yn gorliwio digwyddiad a allai fod wedi denu triniaeth felly.

Yn lle hynny, cyflwynir naratif geirwir sy'n gofyn cwestiynau am wirionedd ac oblygiadau ofnadwy dweud celwydd - yn enwedig pan fo'r celwyddau yng nghyd-destun pŵer niwclear.

Mae Chernobyl yn datgelu croestyniadau'r gyfundrefn Stalinaidd ddarfodedig (a oedd yn profi glasnast a perestroika o dan Gorbachev) y byddai'n well ganddi ffugio bod yn llywodraeth weithredol nag arbed ei dinasyddion. Mae'r ddrama'n datgelu'r haenau o gyd-adweithio, achos ac effaith

sy'n gwneud methiant yn bosibl unrhywle: y celwyddau am ddiogelwch sy'n deillio o flaenoriaethu buddiannau gwleidyddol bob tro; y diwylliant o gyfrinachedd sy'n tra-arglwyddiaethu ar y diwydiant ynni niwclear, gan roi anghenion y diwydiant hwnnw o flaen anghenion y boblogaeth leol ac, yn wir, lles y byd. Rydym yn dyst i aberth dynol ar raddfa anferthol, fel yn achos y glowyr, y diffoddwyr tân a'r "diddymwyr", a yrrwyd i mewn i atal effeithiau pellach y ffrwydrad.

Pŵer y delweddau, y cyrff yn pydru'n fyw, claddu'r rhai a laddwyd o dan haenau o blwm, cyrff noeth glowyr yn twnelu yn y gwres marwol, mae'r rhain wedi creu ymateb cyhoeddus amserol. Mae ein llywodraeth yn dal i bwyso am adeiladu gorsafoedd pŵer

niwclear newydd, er gwaetha'r symudiad rhyngwladol tuag at dechnolegau adnewyddol. Fel yr arweinyddiaeth Sofietaidd o'u blaen, byddai'n well ganddynt barhau â chelwydd diogelwch pŵer niwclear. Fel y noda'r ddrama: mae pob celwydd a ddywedwn yn creu dyled i'r gwirionedd, a rhaid talu'r ddyled honno. Yn yr achos hwn, Chernobyl oedd y ddyled.

Linda Rogers



Disarming the Nuclear Argument: The Truth about Nuclear Weapons
gan Timmon Milne Wallis

Luath Press, clawr papur, ISBN 978 1912 147861 £10.99


Mae'r llyfr hwn yn adnodd ardderchog i unrhyw wrthwynebydd i arfau niwclear, boed yn newydd i'r maes neu'n ymgyrchydd hirdymor. Mae'n agor â phedair pennod ar bethau sylfaenol (Beth yw arfau niwclear? Beth yw ymbelydredd?), i'w dilyn gan bennod ar bob dadl a gyflwynwyd erioed i dweud y dylen "ni" fod ag arfau niwclear

(e.e. 'A ydy arfau niwclear wedi "cadw'r heddwch" ers 1945?; 'A ydy arfau niwclear yn ddiogel?'; 'Ond fedrwyd chi ddim dad-ddyfeisio'r bom'; 'A all arfau niwclear fod yn dderbyniol yn foesol?', ac ati). Er na fwriedir hon fel cyfrol i'w darllen o glawr i glawr, ond i gyfeirio ati fel y bo'r angen, mae'r sgrifennu bob amser yn glir, yn syml ac wedi'i gyfeiriadu'n llawn.

Ni allaf ragori ar farn Bruce Kent am y llyfr hwn: "Gwnaeth yr awdur gymwynas fawr â phob un ohonom sy'n gweithio tuag at fyd heddychlon a di-niwclear arfau gyda'r llyfr hwn. Dydw

i erioed o'r blaen wedi dod ar draws y fath feirniadaeth gynhwysfawr a hawdd-ei-darllen o arfau niwclear cyfredol ac o'r dadleuon a ddefnyddir gan y lobi arfau niwclear."

Brian Jones



CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.

www.cndcymru.org
heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
gwpeylfr: cndcymru

CYSYLLTIADAU:

Brian Jones
01792 830 330
brian.jones@phonecoop.coop

Duncan Rees
07534 975 461
Duncan.rees01@gmail.com

Philip Steele
01248 490 715
phil_steele@btinternet.com

John Cox
01495 773 495
drjohncox121@gmail.com

Trysorydd, Aelodau ac Aelodaeth Grwp:
Michael Freeman,
CND Cymru,
9 Primrose Hill,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE
michael.freeman9@btinternet.com

Ysgrifenydd Cenedlaethol:
C/o Llys Gwyn, Glynarth-
en, Llandysul, SA44 6PS
01239 851 188

Mwnici Coch/Red Monkey



• Dyma un o'r dyluniadau poster wedi'i argraffu â llaw sy'n cael eu paratoi gan **Mwnici Coch – Red Monkey**.

Gellir gweld mwy ar dudalen Facebook **Mwnici Coch – Red Monkey**. Os hoffech gael copïau o'r poster hwn ar gyfer placardiau, maent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os oes arnoch chi neu'ch grŵp angen cynllun arbennig ar gyfer poster neu blacardiau, cysylltwch â **Mwnici Coch – Red Monkey** trwy negesydd.



HEDDWCH

yw cylchgrawn yr
Ymgych Ddiarfog
Niwclear yng Nghymru
(CND Cymru)

Golygydd:
Philip Steele
phil_steele@btinternet.
com

Cyfieithydd:
Siân Edwards
sian@siandefynnog.wales

Cynhyrchu a phostio:
Redkite Print
jon@thefreeflyer.com

Nid yw cynnwys
HEDDWCH o
anghenraid yn
adlewyrchu barn neu
bolisiau C N D Cymru.
Rydym yn croesawu
dadl a thrafodaeth.

Anfonwch unrhyw
sylwadau, cyfraniadau
neu ddyddiadau am
ddigwyddiadau at y
golygydd.

Bydd y rhifyn nesaf
o **HEDDWCH** yn
ymddangos Mis
Tachwedd 2019.